**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

28 Chwefror 2025

Annwyl Elin

Yr Adroddiad ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Yn ddiweddar, gosododd y Pwyllgor ei adroddiad ar y Bil uchod i lywio'r ddadl ynghylch ei egwyddorion cyffredinol, a gynhelir ddydd Mawrth 4 Mawrth 2025.

Mae dau o'r argymhellion yn yr adroddiad, sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau ar gyfer is-ddeddfwriaeth a osodir yn y Senedd, yn faterion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes. Yr argymhellion hynny yw:

> *Argymhelliad 5. Dylai'r Pwyllgor Busnes, cyn i'r Chweched Senedd gael ei diddymu, ystyried cynnal adolygiad o rinweddau cyflwyno gweithdrefn lle y mae eitem o is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Senedd yn cael ei hystyried yn y lle cyntaf gan bwyllgor sifftio sy'n gyfrifol am benderfynu ar y lefel briodol o graffu ar gyfer y darn hwnnw o ddeddfwriaeth.*
>
> *Argymhelliad 6. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried cyflwyno gweithdrefn i ganiatáu ar gyfer cynigion 'ailfeddwl' y gellir eu diwygio i offerynnau statudol cyn diddymu'r Chweched Senedd.*

Ceir rhagor o fanylion am gyd-destun yr argymhellion hyn yn naratif yr adroddiad.

Pe gallai'r Pwyllgor Busnes ystyried y materion hyn fel rhan o'i raglen waith gweithdrefnol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu hynny.

Yn gywir,

Mike Hedges

Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament